Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 23.05.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# DIGWYDDIAD: Brecwast Busnes Hunaniaith, 5 Mehefin 2023

Bydd Hunaniaith – menter iaith Gwynedd – yn cynnal brecwast ar 5 Mehefin i helpu busnesau i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yr haf hwn drwy gymryd camau bach i ddefnyddio fwy o Gymraeg. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghaffi Largo, Pwllheli o 8:00 tan 9:00. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, i gofrestru dilynwch y ddolen isod:

https://forms.office.com/e/8a057w4WYe

# DIGWYDDIAD: Diogelwch Seiber Gogledd Cymru – gwarchod eich busnes, gwarchod eich dyfodol 14 Mehefin 2023

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad rhad ac am ddim i berchnogion busnesau yng Ngogledd Cymru ar sut i gadw busnesau'n ddiogel rhag troseddau seiber. Bydd y digwyddiad drwy'r dydd yma, i'w gynnal ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar 14 Mehefin 2023, yn cynnwys cyfraniadau gan arbenigwyr diogelwch seiber, arddangosfa a gweithdai rhyngweithiol. Am fwy i wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3B7SNpB

# ADNODD: Pecyn Cymorth Digidol i Fusnes

Mae rhedeg busnes yn haws pan fydd gennych yr offer a'r systemau cywir yn eu lle. Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau Becyn Cymorth Digidol i Fusnesau newydd sbon a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i'r feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael a dewis beth sy'n iawn i'ch busnes. Defnyddiwch y ddolen ganlynol i gael mynediad at y Pecyn Cymorth:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn/cyfeirlyfr-meddalwedd-cyflymu

# NEWYDDION: Safonau diogelwch newydd ar gyfer cynhyrchion defnyddwyr â chysylltedd rhyngrwyd

Bydd y Gyfundrefn Diogelwch Cynnyrch a Seilwaith Telathrebu (Diogelwch Cynnyrch) yn cael ei chyflwyno ar 29 Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae gan ddiwydiannau a chynhyrchwyr telathrebu a thechnoleg 12 mis i baratoi ar gyfer gweithredu. I ddysgu fwy am y mesurau newydd, defnyddiwch y ddolen ganlynol:

https://www.gov.uk/government/news/starting-gun-fired-on-preparations-for-new-product-security-regime

## YMGYRCH Pwysigrwydd olrhain a chofrestru moch

Mae Defra, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol yn ymwneud â chlefydau a lles anifeiliaid wedi bod yn cydweithio ar adnoddau i wella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd olrhain moch a chofrestru ceidwaid. Mae arweiniad pellach ar gael yn:

https://www.gov.uk/guidance/pig-keepers-register-your-holding-and-animals

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru